Cyngor Cymuned Llanfrothen
COFNODION CYFARFOD MISOL MEDI 2018
3 MEDI 2018 7.30 Canolfan Gymdeithasol Llanfrothen

## 1. YMDDIHEURIADAU

Nyfain Wynn, Glyn Griffiths

## 2. DATGAN DIDDORDEB

Dim

## 3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 25 Mehefin 2018.

**PRESENNOL :**

Cynghorwyr: Richard Jones, Rhydwen Roberts, Llio Griffiths, Nia Povey, Gareth Thomas,
Cadeirio: Dafydd Watts

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

### 4.1 Llwybrau Cyhoedddus

Mae Cyngor Gwnedd wedi cytuno i gynnal a chadw'r llwybrau am y flwyddyn 2018/19 . Rhaid fydd penderfynu pa lwybrau i'w cynnal a'u cadw o 2019/20 ymlaen.

Atgoffodd y Cynghorydd Gareth Thomas mai cyfrifoldeb statudol Cyngor Gwynedd yw cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus. Gan eu bod wedi gwneud toriad yn y swm sy'n ddyledus i'r Cyngor Cymuned, ni allant ddisgwyl bod y Cyngor Cymuned yn medru torri'r llwybrau i'r un safon ag y gwnaethpwyd yn y gorffennol. £491 a dderbyniwyd y llynedd tuag at gostau cynnal a chadw'r

llwybrau, ac felly gallesid dadlau mai dyna ddylai gwariant y Cyngor Cymuned fod.

Yn y gorffennol roedd Cyngor Gwynedd yn torri'r llwybrau mawr a'r Cyngor Cymuned yn torri llwybrau Categori 3.

Penderfynwyd fod angen trafodaeth bellach ar ba lwybrau fyddai'n cael eu torri a phryd. Bydd angen gwneud penderfyniad ar hyn cyn penderfynu ar swm y Praesept yn Ionawr 2019.

## 4.2 Bws Cymunedol

Mae Michelle Clarke am drefnu cyfarfod rhwng cynghorau Penrhyndeudraeth, Harlech, Talsarnau, Llanfrothen a Beddgelert.

Danfonwyd copi o'r holiadur ar farn y gymuned leol a baratowyd gan Dafydd Watts ati hefyd er gwybodeth.

Roedd Michelle wedi gofyn am fwy o fanylion am y gwasanaeth tacsi sy'n danfon pobl Croesor i Rhyd ac yn mynd o Lanfrothen i Benrhyndeudraeth. Y trefniant yw ffonio y diwrnod cynt er mwyn archebu tacsi, ond mae'r trefniant yma bellach wedi dod i ben.

## 4.3 Arosfan Fysiau Llanfrothen

Cafwyd manylion pellach gan Gyngor Gwynedd am sut yr oeddynt wedi prisio'r gwaith o osod arosfan fws ger y siop yn Llanfrothen yn swm o £40,000.

Doedd Cyngor Gwynedd ddim yn gweld sut y gallasent leihau'r swm yma, gan fod yn rhaid iddynt ddilyn isafswm safonau penodol wrth ddylunio gwaith o'r fath.

Gan mai prif bwrpas defnyddio siop y pentref fel arosfan fws oedd er mwyn arbed costau, yna doedd dim unrhyw ffordd y medrai'r Cyngor Cymuned ysgwyddo costau cynllun Cyngor Gwynedd.

Penderfynwayd gofyn i Cerbydau Gwynfor sy'n rhedeg y gwasanaeth bysiau pe byddent yn fodlon defnyddio'r siop fel arosfan, heb y newidiadau a awgrymwyd gan Gyngor Gwynedd, cyn ystyried y mater ymhellach.

## 4.4 Diogelwch Ffordd yn Llanfrothen

Cafodd y Cynghorydd Dafydd Watts a'r Cynghorydd Llio gyfarfod efo Dylan Wynn Jones, Rheolwr Uned Traffig, Cyngor Gwynedd.

Fe gytunwyd:-

1. Does dim angen parth 20mya ger y siop oherwydd fod palmant yno

2. Roedd hi'n bosibl gosod cyfyngiad cyflymder 20 mya o flaen yr ysgol, ond fedrai'r cyfyngiad ddim mynd mor bell â'r gofgolofn gan ei fod yn rhy bell o'r ysgol. Cyngor Gwynedd i ymgysylltu â'r ysgol fel bod plant yr ysgol yn rhan o ddyluniad yr arwyddion.

3. Angen cysylltu efo preswylwyr Kyffin House i newid y llwybr troed, a gweld a fyddai ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r llwybr redeg yr ochr arall i'w wal ger y gofgolofn.

4. Cyngor Gwynedd i fesur cyflymder ger y gofgolofn. Yn dibynnu ar ganlyniadau'r mesur cyflymder, gallesid rhoi ystyriaeth i leoli fan Gan Bwyll ger y safle yma yn y dyfodol.

   Cyngor Gwynedd i edrych hefyd ar opsiynau o ran gwella arwyddion ac arwyddion ffordd.

**4.5 Mynwent Tan Lan**

**Biniau**

Mae Cyngor Gwynedd i fod i gasglu'r bin brown, sef sbwriel gardd, yn wythnosol. Hyd yn hyn, maent wedi methu pob casgliad.

Maent heyfd i ddarparu bin masnachol gwyrdd ers rhai wythnosau, ond er eu bod yn dweud fod y bin wedi ei osod yn y fynwent, does dim golwg ohonno.

Mae Cyngor Gwynedd yn edrych ymhellach i'r mater er mwyn ceisio datrys y problemau a sefydlu gwasanaeth derbyniol mor fuan â phosibl,

Y y cyfamser, penderfynwyd gofyn i Dylan sy’n torri gwair y fynwent i wagio’r biniau.

**Plotiau ychwanegol**

Cafodd gwaith ei wneud tua 2015 gan gwmni o Fae Colwyn o ran edrych ar ddyfodol y fynwent a darparu mwy o blotiau claddu.

Gofynnwyd i’r Clerc gysylltu â’r cwmni yma unwaith eto er mwyn ail-ddechrau’r gwaith o ystyried dyfodol y fynwent.

**4.6 13 Garreg Frech**

Cafwyd ateb gan Adran Tai Gwag Cyngor Gwynedd, oedd o’r farn nad oedd dim y medrent ei wneud o ran adfeddiannu 13 Garreg Frech onibai ei fod yn peri niwsans statudol i’r tai o amgylch.

Mynegwyd rhwystrediaeth nad oedd unrhyw sefydliad yn fodlon gwneud dim i ddatrys y broblem yma, yn enwedig gan nad oedd neb yn byw yn y ty ers misodd, a’r ffaith fod yr eiddo mewn cyflwr sy’n brysur ddirywio. ers amser maith.  Mae dwr yn llifo i mewn I’r eiddo, ceir cryn dyfiant ac mae yna lygod yno hefyd.

**5.  Gohebiaeth**

- Nosweithiau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Derbyniwyd er gwybodaeth

**6.  Materion Ariannol**

**6.1** Mân wariant gan y Clerc - £47.74

**6.2** 26 Mehefin 2018 derbyn £1,210, tâl claddu  gan Pritchard and Griffiths

**6.3** Anfoneb Kerr 43 – 9 Mai 2018 agor bedd newydd dyfn 2 £390.00

**6.4** Snowdonia Fire Protection – Anfoneb Gwirio’r System Dân - £73.86

**6.5** Adolygu Cyflog y Clerc**-** gohiriwyd y mater yma i'r cyfarfod nesaf. Cyflog y Clerc Mehefin, Gorffennaf, Awst 2018 - £499.98

**6.6** Tanysgrifio i Microsoft Office 2017/18 £59.99, ad-dalu'r Clerc

**6.7** Ynni Twrog - £50.00

## 7. Ceisiadau Cynllunio

Dim

## 8. Materion Eraill

### 8.1 Darn o dir ger y siop

Mae gan y Cyngor Cymuned les gan Gyngor Gwynedd ar ddarn o dir dros y ffordd i siop y pentref. Credir fod unigolyn o'r enw Richard yn ei rentu am ddim mewn cydnabyddiaeth am dorri gwair.

Ymddengys nad oes yna unrhyw dystiolaeth ysgrfienedig am y trefniant yma.

Cytunodd y Cynghorydd Llio Glyn i holi ymhellach am y trefniadau.

### 8.2 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Cytunwyd mai dyddiad y cyfarod nesaf fyddai **nos Lun 5 Tachwedd 2018 am 7 yh**